



RHEOLWR CYNHYRCHU

£ 35 - 38K y flwyddyn - amser llawn

(gyda hyblygrwydd ar gyfer rhan-amser/rhannu swydd)

Caerdydd (ar hyn o bryd mae staff yn gweithio o bell oherwydd Coronafeirws)

Mae National Theatre Wales yn cael ei ysgogi gan anelu at gysylltiad. Rydym yn gweld theatr fel arf i ddod â phobl ynghyd i fyfrio, archwilio a chael ein hysbrydoli gan straeon ein cenedl. Rydym am i bawb yng Nghymru weld eu hunain, eu cymunedau, eu profiadau a'u dyfodol yn cael eu dychmygu yn y gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae ein staff wrth wraidd cyflawni'r pwrpas hwnnw.

YNGLYN Â'R RÔL

Mae'r Rheolwr Cynhyrchu yn rôl allweddol yn y Tîm Cynhyrchu, gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Cynhyrchu, Cynhyrchydd Gweithredol, Cydlynnydd Cynhyrchu a'r Cynhyrchydd i gefnogi creu a darparu cynyrchiadau, digwyddiadau a gweithgareddau NTW.

Gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Cynhyrchu ac aelodau o'r tîm ehangach, bydd y Rheolwr Cynhyrchu yn arwain ar brosesau sy'n sicrhau y darperir cynyrchiadau o'r safonau technegol ac artistig uchaf, wrth flaenoriaethu lles staff, iechyd a diogelwch a rheoli risg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi gwneuthurwyr theatr a thimau creadigol i wireddu eu gweledigaeth a'u gwaith; cysylltu a chefnogi rheolwyr cynhyrchu a thimau cynhyrchu ar gyfer sioeau penodol; cydlynu cyfarfodydd cynhyrchu rheolaidd, a rheoli cyllidebau sioeau, ynghyd â nodi a rheoli cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a phrofiad gwaith yn y broses gynhyrchu. Mae'r Rheolwr Cynhyrchu hefyd yn gyfrifol am reoli storfa NTW, gan sicrhau bod ei asedau ar gael i wneuthurwyr theatr eraill yng Nghymru.

Bydd y rôl hon yn cefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu i gyflawni ymrwymiad strategol NTW i roi cynaliadwyedd amgylcheddol wrth wraidd ei gynyrchiadau, gan weithio ar y cyd â staff Cynhyrchu i ddatblygu System Rheoli Digwyddiadau sy'n gwasanaethu nodau strategol y sefydliad o ran cynaliadwyedd; wrth wneud y mwyaf o gyfleoedd i rannu gwybodaeth a sgiliau yn y maes hwn gyda'r sector ehangach.

Bydd y Rheolwr Cynhyrchu hefyd yn cymryd rhan mewn ystod o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo gwneuthurwyr theatr a digwyddiadau byw Cymru, a datblygu potensial, proffil, cyfle a grym i unigolion, cwmnïau a phartneriaethau cydweithredol yng Nghymru. Yn unol â Nodau ac Amcanion Strategol NTW, bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithio gydag artistiaid sy'n profi hiliaeth, rhagfarn ar sail anabledd a thlodi a thynnu rhwystrau i gyflogaeth broffesiynol ar draws y sector.

Bydd y rôl yn gofyn am ychydig o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau, gan gynnwys aros dros nos oddi cartref, y byddwch yn cronni amser i ffwrdd er mwyn gwneud yn iawn amdano.

DIWRNOD YM MYWYD RHEOLWR CYNHYRCHU YN NTW

Ar unrhyw ddiwrnod penodol, efallai y bydd y rôl hon yn eich gweld yn rhedeg sesiwn gosod offer mewn theatr, neu oruchwylio gosod generadur mewn lleoliad safle-benodol. Gallech fod yn cysylltu â goleuo, cyflenwyr sain neu adeiladwyr setiau, neu'n cwrdd â dylunydd ein sioe nesaf. Byddwch yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd ac yn dadansoddi ystwythder o fewn cyllidebau. Bydd llawer o'ch amser yn mynd ar ganolbwyntio ar sioeau, rhai'r presennol a rhai'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi gweithgareddau cydweithredu cymunedol TEAM trwy roi cyngor a gweithio ar sioe neu brosiect TEAM. Ochr yn ochr â gwaith â ffocws ar sioeau, efallai y cewch eich hun mewn cyfarfod â chydweithwyr o wahanol adrannau, gan gyfrannu syniadau neu gefnogaeth i gynllunio a gweithgarwch yn y dyfodol. Efallai y cewch eich hun mewn digwyddiad diwydiant yng Ngogledd Cymru neu ymhellach i ffwrdd yn cynrychioli'r Cwmni, neu efallai y cewch eich hun yn ysgrifennu amserlen wrth eich desg yn y swyddfa yn Arcêd y Castell. Mae pob diwrnod yn wahanol, yn gyffrous ac yn llawn boddhad.

YN GYFRIFOL I

Pennaeth Cynhyrchu

YN GYFRIFOL AM

Timau technegol a chynhyrchu llawrydd (ee rheoli llwyfan, goleuo, sain, clyweled a thechnegwyr arbenigol eraill, staff blaen tŷ)

PWY RYDYM YN MEDDWL YR YDYCH CHI O BOSIBL?

Bydd gennych brofiad o Reoli Cynhyrchu mewn amgylchedd digwyddiadau byw. Byddwch yn hyderus yn arwain timau ac yn rheoli cyllidebau a bydd gennych wybodaeth ymarferol dda o offer theatr dechnegol. Bydd gennych hefyd wybodaeth ymarferol dda o lechyd a Diogelwch mewn amgylchedd cefn llwyfan.

Mae angen gweithlu arnom sy'n cynrychioli sbectrwm cyfan o brofiad byw. Po fwyaf amrywiol yw'r safbwyntiau sydd gennym yn dylanwadu ar yr hyn a wnawn, y cryfaf a'r mwyaf ystyrllon fydd ein gwaith. Rydym yn annog ceisiadau gan bob cymuned, ffydd, cefndir a chan unrhyw un sy'n profi hiliaeth, neu ragfarn ar sail anabled. Rydym yn cydnabod y model cymdeithasol o anabled ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cyflogeion i gael gwared ar rwystrau i gynhwysiant. Rydym hefyd yn ceisio goresgyn y rhwystrau sy'n wynebu ymgeiswyr â chyfrifoldebau gofalu trwy ddiwylliant gwaith hyblyg.

GWEITHIO I NTW

Mae gan bob aelod o staff yn NTW rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni uchelgeisiau'r Cwmni. Rydym i gyd yn eiriolwyr dros waith a gwerthoedd NTW, a chawn ein hannog i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid, cymunedau a chynulleidfaoedd newydd i'r cwmni, a helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae bod yn bresennol mewn cyfarfodydd Cwmni a chymryd rhan weithgar gyda TEAM NTW (ein rhaglen sy'n cynnwys ystod eang o gymunedau ym mhopeth a wnawn) yn rhan bwysig a gwerthfawr o swydd pawb. Yn ddiweddar rydym wedi datblygu ein Cynllun Strategol 2022-2025 ac rydym yn gweithio tuag at chwarae rhan fawr yng ngham nesaf taith theatrig Cymru, gyda phwyslais cryf ar adeiladu Cymru mwy cyfartal, cynaliadwy ac amgylcheddol gyfiawn.

PRIF GYFRIFOLDEBAU'R RÔL

Cyflwyno Cynhyrchu

Cyflwyno cynyrchiadau penodedig i'r safon uchaf o fewn y paramedrau a'r adnoddau a osodwyd gan y Cyfarwyddwr Artistig, y Cynhyrhydd Gweithredol a'r Pennaeth Cynhyrchu.

- Gweithio gyda'r Cynhyrhydd Gweithredol a'r Pennaeth Cynhyrchu ar gynllunio cychwynnol a chostio cynyrchiadau a ddyrannwyd.
- Sicrhau fod adnoddau a pharmedrau wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu cytuno gyda'r timau creadigol.
- Cynnal asesiad ar y cam model cerdyn gwyn/gwyrdd a'r camau dylunio terfynol i sicrhau nad yw'r dyluniad yn mynd y tu hwnt i'r paramedrau y cytunwyd arnynt.
- Gweithio, os oes angen, gyda'r tîm creadigol i ddod â'r dyluniad o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt erbyn cam terfynol y model.
- Gweithio o fewn paramedrau "The Theatre Green Book" <https://theatregreenbook.com/> a blaenoriaethu dull cylchol o gyflwyno cynyrchiadau.
- Cynhyrchu rhagolygon cyllideb cywir.
- Monitro cynnydd gwariant a chynhyrchu ar gynyrchiadau a ddyrannwyd a chyfleu unrhyw feysydd o bryder mewn modd amserol.
- Gweithio gyda'r Pennaeth Cynhyrchu, y Cynhyrhydd Gweithredol a'r Cynhyrhydd i gysoni'r gwariant terfynol.
- Rhagamcanu gofynion o ran goramser a chriwiau technegol
- Comisiynu gwasanaethau contractwyr golygfaol, darparwyr gwasanaethau technegol, adeiladwyr, gwneuthurwyr, darparwyr rheoli traffig, staff blaen tŷ ac unrhyw ddarparwyr eraill sy'n gysylltiedig â digwyddiadau safle-benodol mawr.
- Cydlynu pob cyfarfod sy'n angenrheidiol i rannu gwybodaeth a sicrhau bod pawb, gan gynnwys tîm NTW, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y sioe.
- Mynychu digwyddiadau cwrdd a chyfarch cynhyrchu ac unrhyw gyfarfodydd cymunedol allweddol.
- Trefnu storio ac archifo sioeau byw yn ddiogel ac yn briodol.
- Gweithio gyda'r Cydlynnydd Cynhyrchu i gefnogi'r tîm Cynulleidfaoedd gyda threfniadau ar gyfer ffilmio a thynnu lluniau ymarferion a chynyrchiadau.
- Gweithio gyda'r Cydlynnydd Cynhyrchu i gefnogi'r tîm Cynulleidfaoedd gyda threfniadau ar gyfer perfformiadau a darpariaethau mynediad.
- Sicrhau bod NTW yn cadw enw da am arfer gorau a rhagoriaeth yn y sector

Adran Gynhyrchu

Cyfrannu'n weithredol at weithrediad effeithiol yr adran gynhyrchu.

- Gweithio gyda'r Pennaeth Cynhyrchu a'r Cydlynnydd Cynhyrchu i gynllunio a rheoli gweithrediadau Cynhyrchu yn effeithiol.

- Cymryd rhan mewn recriwtio staff adrannol, llawrydd ac achlysurol.
- Cadw ar y blaen o ran y wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau cynhyrchu, offer, ymarfer a chyflenwyr newydd ledled y wlad.
- Adeiladu a rheoli perthnasoedd allanol, er enghraifft gyda lleoliadau, cyflenwyr a chwmnïau partner.
- Datblygu'r sgiliau a'r cyfleoedd ar gyfer technegwyr a rheolwyr llwyfan o Gymru a'r rhai sy'n byw yng Nghymru.
- Goruchwylio gofod storio'r cwmni, gan sicrhau ei fod yn cael ei gadw mewn modd trefnus a diogel.
- Goruchwylio cynnal a chadw offer technegol y Cwmni gan gynnwys profion PAT.
- Dod o hyd i offer newydd a'u prynu fel sy'n briodol.

Arfer Gweithio gan gynnwys Iechyd a Diogelwch

Bod yn gyfarwydd â, a bod yn bersonol gyfrifol am, weithredu o fewn Polisi Iechyd a Diogelwch NTW a hyrwyddo amcanion Cynllun Strategol y Cwmni gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd.

- Cefnogi datblygiad Polisi Iechyd a Diogelwch NTW a gweithgorau staff eraill.
- Sicrhau fod yr holl weithrediadau cynhyrchu yn cael eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol a chymwys ac unrhyw reoliadau neu ddeddfwriaeth statudol berthnasol eraill.
- Cynhyrchu asesiadau risg a gwaith papur Iechyd a Diogelwch perthnasol arall fel y bo'n briodol.
- Cynllunio a rheoli ffitiadau, cyfnodau cynhyrchu ac ymadael ar gyfer cynyrchiadau.
- Cysylltu â chynghorau lleol a'r gwasanaethau brys ynghylch cyflwyno digwyddiadau safle-benodol.
- Sicrhau fod ein cynyrchiadau'n cael eu cyflwyno mewn modd cadarnhaol, cydweithredol a phroffesiynol.
- Chwilio am gyfleoedd yn barhaus i addasu a gwella ein harferion gwaith.
- Trefnu pob gweithgaredd gan ystyried lles pawb sy'n gysylltiedig.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau NTW gan gynnwys cyfarfodydd, cynllunio a hyfforddi.

TEAM a Datblygiad Creadigol

Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cydweithredu a'r Cyfarwyddwr Artistig i ddatblygu gwneuthurwyr theatr a gwneud theatr yng Nghymru.

- Darparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant i aelodau TEAM ac artistiaid ar ddechrau eu gyrfa.
- Goruchwylio/hwyluso lleoliadau TEAM o fewn cwmpas yr adran gynhyrchu.

- Rheoli cynhyrchu gweithgareddau TEAM pan fo capasiti.

MANYLEB Y PERSON

	Hanfodol * (gweler isod)	Dymunol
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o reoli staff • Profiad o redeg prosiectau • Profiad ar lefel reoli yn cyflwyno digwyddiadau byw 	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf dwy flynedd o brofiad o reoli cynyrchiadau • Profiad o reoli darpariaeth mynediad fel darpariaeth ar gyfer unigolion sydd â nam symudedd, capsiynau ac iaith arwyddion • Profiad o weithio ar gynyrchiadau safle-benodol neu gynyrchiadau mewn lleoliadau annhraddodiadol • Profiad o weithio gyda staff creadigol llawrydd, staff cynhyrchu a rheolwyr llwyfan a'u rheoli • Profiad o reoli sawl prosiect ar wahanol gamau i'w cwblhau ar yr un pryd
Gwybodaeth a Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau amserlennu cryf • Gwybodaeth am iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a dulliau asesu risg • Sgiliau TG da • Y gallu i ragweld a datrys problemau a meddwl yn greadigol 	<ul style="list-style-type: none"> • Siaradwr Cymraeg • Cymhwyster cymorth cyntaf • Trwydded yrru lawn • Gwybodaeth mewn maes technegol arbenigol • Gwybodaeth am CAD • Gwybodaeth am arferion gweithio cynaliadwy ym maes rheoli theatr a digwyddiadau
Rhinweddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Sylw i fanylion • Sgiliau rhyngpersonol da • Y gallu i weithio mewn amgylcheddau prysur mewn modd digynnwrf, clir a phroffesiynol • Y gallu i weithio o fewn terfynau amser a rheoli amser yn effeithiol • Yn hyderus wrth wneud penderfyniadau • Dangos menter 	<ul style="list-style-type: none"> • Awydd i feithrin sgil unigolion sydd o dan eich goruchwyliaeth • Diddordeb mewn theatr ac ymrwymiad i weithio mewn ffyrdd sy'n gwneud theatr yn fwy hygyrch a thecach

*Mae NTW bob amser yn agored i ystyried buddsoddi mewn rhywun a all ddangos potensial datblygu i ni yn y rôl hon, er efallai na fyddant yn gallu dangos yr holl feini prawf hanfodol a restrir uchod.

TELERAU AC AMODAU

Cyflog:	£ 35-38K y flwyddyn yn dibynnu ar brofiad
Oriau:	5 diwrnod yr wythnos (o leiaf 35 awr, i gynnwys egwyl ginio orfodol am awr, gan ddod yn gyfanswm o 40 awr). Byddwn yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg, yn cynnwys rhan-amser a rhannu swydd, ar gyfer yr ymgeisydd iawn.
Gwyliau:	25 diwrnod y flwyddyn, pro rata (ac eithrio Gwyliau Banc statudol)
Cyfnod:	Mae hon yn rôl barhaol
Cyfnod rhybudd:	Yn dilyn cwblhau'r cyfnod prawf tri mis yn llwyddiannus, y cyfnod o rybudd yw tri mis.
Pensiwn:	Rydym yn cynnig cynllun pensiwn rhanddeiliaid gyda Royal London ar gyfer ein holl gyflogeion. Tynnir cyfraniadau misol o'ch cyflog; gallwch gyfrannu isafswm o 3% - mwy os dewiswch chi - ac rydym yn cyfrannu 5%. Ar ôl i chi gwblhau eich cyfnod prawf a'ch bod yn gwybod eich bod am aros, byddwch yn ymuno â'r cynllun yn awtomatig, a byddwn yn ôl-ddyddio cyfraniadau'r Cwmni i'ch dyddiad cychwyn.

SUT I WNEUD CAIS

Gallwch naill ai ysgrifennu llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na 2 dudalen NEU ffilmio fideo ohonoch chi'ch hun yn para dim mwy na 5 munud - mae'r ddau fformat yr un mor dderbyniol a'i gilydd, ac nid ydym yn ffafrio un dros y llall, felly dewiswch yr un sydd fwyaf addas i chi. Yn eich llythyr eglurhaol neu fideo, dywedwch wrthym amdanoch chi, eich profiadau, eich sgiliau a'ch nodweddion sy'n berthnasol i'r swydd, a'ch dyheadau proffesiynol. Ble hoffech chi fod ymhen 3 blynedd? Pa newidiadau yr hoffech chi eu gwneud i'n cymdeithas? Beth ydych yn hoffi ei wneud? Anfonwch eich llythyr eglurhaol neu'ch fideo atom gyda ffurflen gais wedi'i llenwi a'ch CV, heb fod yn fwy na 3 tudalen yn cynnwys geiradaon i: work@nationaltheatrewales.org erbyn 5.00pm ddydd Gwener 26 Tachwedd, 2021.

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn eich gwahodd i gyfweiliad dros Zoom, sy'n debygol o ddigwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 6 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn sgysiau cyfeillgar, anffurfiol i raddau helaeth am 45 munud gyda thua thri o bobl gan gynnwys Cynhyrhydd Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr NTW, y Pennaeth Cynhyrchu ac aelod o banel TEAM. Byddwn yn anfon amlinelliad bras atoch o'r cwestiynau y byddwn yn eu gofyn ichi, unrhyw fanylion am dasg y gallem ei gosod, a bywgraffiadau byr o'r uchod ymlaen llaw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl neu'r broses, e-bostiwch work@nationaltheatrewales.org